**Arolygiad o dan Adran 28**
**Deddf Addysg 2005**

**Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn**

# Ysgol Gynradd Llanrug

**Llanrug**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 4AL**

**Rhif yr Ysgol: 6612006**

**Dyddiad yr Arolygiad: 19 Hydref 2009**

**gan**

**Edward Goronwy Morris**
**78283**

**Dyddiad Cyhoeddi: 21 Rhagfyr 2009**

**O dan rif contract Estyn: 1100309**

Ⓗ **Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

## Cyflwyniad

Arolygwyd Ysgol Gynradd Llanrug fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Gynradd Llanrug rhwng 19/10/09 a 22/10/09, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Edward Goronwy Morris. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae adroddiadau Estyn yn dilyn ei arweiniad ar gyfer ysgrifennu a golygu adroddiadau, sydd ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.u). Mae'r tabl isod yn dangos y termau a ddefnyddir gan Estyn a syniad bras o'u hystyr. Mae'r tabl ar gyfer rhoi arweiniad yn unig.

| | |
|---|---|
| **Bron pob un** | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| **Y rhan fwyaf** | 90% neu fwy |
| **Llawer** | 70% neu fwy |
| **Mwyafrif** | dros 60% |
| **Hanner/tua hanner** | yn agos 50% |
| **Lleiafrif** | islaw 40% |
| **Rhai** | islaw 20% |
| **Ychydig iawn** | llai na 10% |

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Gradd 1** | da gyda nodweddion rhagorol |
| **Gradd 2** | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| **Gradd 3** | nodweddion da'n gorbwyso diffygion |
| **Gradd 4** | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| **Gradd 5** | llawer o ddiffygion pwysig |

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

**Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.**

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Sector uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | | |
|---|---|---|
| **Cyd-destun** | | 1 |
| **Crynodeb** | | 2 |
| **Argymhellion** | | 6 |
| **Safonau** | | 6 |
| Cwestiwn Allweddol 1: | Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | 6 |
| **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant** | | 9 |
| Cwestiwn Allweddol 2: | Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | 9 |
| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | 11 |
| Cwestiwn Allweddol 4: | Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? | 12 |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | | 14 |
| Cwestiwn Allweddol 5: | Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? | 14 |
| Cwestiwn Allweddol 6: | Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | 15 |
| Cwestiwn Allweddol 7: | Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | 17 |
| **Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu** | | 18 |
| Cyfnod sylfaen | | 18 |
| Saesneg | | 23 |
| Dylunio a thechnoleg | | 24 |
| Daearyddiaeth | | 24 |
| Cerddoriaeth | | 26 |
| Addysg gorfforol | | 26 |
| **Ymateb yr ysgol i'r arolygiad** | | 28 |
| **Atodiadau** | | 29 |
| 1 | Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol | 29 |
| 2 | Data a dangosyddion ysgol | 29 |
| 3 | Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol | 30 |
| 4 | Sail dystiolaeth yr arolygiad | 31 |
| 5 | Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu | 32 |

## Cyd-destun

### Natur y darparwr

1 Lleolir Ysgol Gynradd Llanrug, sy'n ysgol naturiol Gymraeg, ym mhentref Llanrug, rhyw bum milltir o dref Caernarfon. Gweithredir polisi iaith Awdurdod Unedol (AU) Gwynedd. Daw mwyafrif y disgyblion o'r pentref a'r ardal wledig gyffiniol. Yn economaidd nid yw'r ardal breswyl y daw'r disgyblion ohoni fel yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae 10% o'r disgyblion wedi'u cofrestru fel rhai â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na chyfartaledd yr awdurdod addysg lleol (AALl) o 12.8% a'r ganran ar draws Cymru o 17.5%. Y mae'n ardal Gymraeg o ran iaith a Chymraeg yw prif iaith y cartref i 95% o'r disgyblion. Mae ychydig o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn ddi-Gymraeg; cânt eu rhoi am gyfnod yng nghanolfan iaith yr AALl er mwyn codi'r iaith yn gyflym. Mae'r disgyblion yn cynrychioli ystod gallu llawn. Mae canlyniadau asesiad sylfaen yn yr ysgol oddeutu cyfartaledd y sir.

2 Ar hyn o bryd, mae 221 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol o oedran derbyn i flwyddyn (B) 6. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn llawn amser yn unol â pholisïau'r AALl ym mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Derbynnir plant i'r feithrin yn rhan amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed; ar hyn o bryd, mae 37 plentyn yn mynychu'n rhan amser. Mae 47 disgybl wedi eu hadnabod fel rhai ag anghenion addysg arbennig (AAA) gan gynnwys 12 ar 'gweithredu ysgol a mwy' a tri sydd ar ddatganiad o AAA. Nid oes un disgybl yn yr ysgol yn derbyn cymorth dysgu mewn Saesneg fel iaith ychwanegol nac ychwaith unrhyw ddisgybl o dan ofal yr awdurdod lleol.

3 Yn ogystal â'r pennaeth mae 10 o athrawon amser llawn arall. Yn ychwanegol mae un athrawes rhan amser. Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Ionawr 1991. Mae niferoedd y disgyblion yn yr ysgol wedi codi ychydig ers pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ebrill 2003. Sefydlwyd uned gan y Mudiad Ysgol Meithrin yn rhan o'r ysgol yn 2005 ac adeiladwyd bloc newydd ar gyfer B5 a B6.

### Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

4 Nod yr ysgol yw creu profiadau dysgu ble ceir safonau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion, gan roi cyfle iddynt astudio pob maes o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol (CC). Trwy sicrhau amgylchedd dysgu bywiog ac ysgogol sy'n gyffrous ar gyfer heddiw, ac sydd hefyd yn baratoad ar gyfer y dyfodol, bwriad yr ysgol yw:

- creu amgylchedd gofalgar, diogel fel bod pawb sy'n mynychu'r ysgol yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi;
- datblygu gofal tuag at yr amgylchedd;
- creu partneriaeth gyda rhieni;
- datblygu swyddogaeth gadarnhaol i'r ysgol o fewn y gymuned, a
- creu ffactor 'teimlad da', fel bod pob unigolyn yn teimlo'n dda ynghylch eu hunain, ynghylch yr hyn a wnânt ac ynghylch yr ysgol.

5 Yn y cynllun datblygu ysgol (CDY) rhestrir y blaenoriaethau canlynol ar gyfer 2009-2010:

- datblygu ymhellach y gwaith blaengar i hyrwyddo strategaethau cenedlaethol blynyddoedd cynnar gyda B1 a B2, a symud ymlaen i ymgorffori elfennau rhagoriaeth yn y cynllun, wrth gefnogi plant sy'n symud o B2 i B3 yng nghyfnod allweddol 2;
- datblygu cynllun gweithredu ar gyfer ymgorffori newidiadau Cwricwlwm 2008 i gynlluniau gwaith cyfredol yr ysgol;
- parhau gyda'r rhaglen hyfforddi athrawon Blynyddoedd Rhyfeddol Webster Stratton;
- datblygu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yr ysgol i ddatblygu ymhellach rai o brif nodau allweddol yr ysgol sef parch, hunan ddisgyblaeth ac ymdeimlad o berthyn i gymuned ddiwylliedig a gwâr;
- parhau i adolygu ac addasu cyfundrefn 'asesu ar gyfer dysgu' drwy ddiffinio arfer dda ar gyfer athrawon, a
- datblygu ymhellach sgiliau meddwl disgyblion.

## Crynodeb

6 Mae Ysgol Llanrug yn ysgol dda gyda nifer o nodweddion rhagorol. Ei hawyrgylch gartrefol yw un o brif gryfderau'r ysgol. Mae'r berthynas ardderchog sy'n bodoli rhwng y staff a'r disgyblion yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd bywyd yr ysgol a'r safonau cyflawniad uchel. Mae'r defnydd a wneir o'r gymuned a'r ardal leol fel canolbwynt i'r profiadau addysgu ynghyd a'r rhyngweithio cyson rhwng yr ysgol, y rhieni a'r gymuned ehangach yn nodwedd eithriadol o'r ysgol. Gwnaeth yr ysgol gynnydd rhagorol ers yr arolygiad diwethaf.

7 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol ym mhob un o'r saith cwestiwn allweddol.

**Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd**

| Cwestiwn Allweddol | | Gradd arolygu |
|---|---|---|
| 1 | Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | Gradd 1 |
| 2 | Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | Gradd 1 |
| 3 | Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | Gradd 1 |
| 4 | Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? | Gradd 1 |
| 5 | Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? | Gradd 1 |
| 6 | Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | Gradd 1 |
| 7 | Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | Gradd 1 |

8 Mae asesiadau statudol athrawon yn 2009 yn dangos bod 93.5% o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd hynny yw, y lefel 2 disgwyliedig yn y tri phwnc Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu â'r

cyfartaledd cenedlaethol o 81.1%. Yn yr un flwyddyn yng nghyfnod allweddol 2 mae 100% o ddisgyblion yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd ar lefel 4 neu uwch yng Nghymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 77.0%. Mae cyrhaeddiad y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn sylweddol uwch na chyfartaleddau'r teulu, yr AALl a chenedlaethol. Mae'r cyrhaeddiad y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 o'u gymharu ag ysgolion tebyg hynny yw, yr ysgolion hynny gyda niferoedd tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf.

9 O ystyried y data dros dreigl amser o dair blynedd mae canlyniadau asesiadau'r CC yn y ddau gyfnod yn gyson uwch nag ysgolion tebyg gyda'r dangosydd pwnc craidd yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn y chwartel uchaf. Nid oes patrwm arwyddocaol yn amlygu ym mherfformiad bechgyn a merched. Mae perfformiad y merched trwyddi draw yn rhagori ar y bechgyn gan adlewyrchu'r darlun cenedlaethol.

10 Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 38% | 62% | 0% | 0% | 0% |

11 Mae'r ffigurau hyn yn dangos gwelliant sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Maent hefyd yn rhagori ar y darlun cenedlaethol a adroddwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2007 i 2008.

12 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd rhagorol tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

13 Mae safonau yn y meysydd dysgu a arolygwyd yn y cyfnod sylfaen fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol | Gradd 1 |
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu | Gradd 1 |
| Datblygiad mathemategol | Gradd 1 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd | Gradd 1 |
| Datblygiad corfforol | Gradd 1 |
| Datblygiad creadigol | Gradd 1 |

14 Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, yn y pynciau a arolygwyd mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

| Pynciau | Cyfnod Allweddol 1 | Cyfnod Allweddol 2 |
|---|---|---|
| Saesneg | Amherthnasol | Gradd 2 |
| Dylunio a Thechnoleg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Daearyddiaeth | Gradd 1 | Gradd 1 |
| Cerddoriaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg Gorfforol | Gradd 1 | Gradd 1 |

15 Gwna'r holl ddysgwyr, beth bynnag yw eu hoed, rhyw, gallu, cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol gan gynnwys y rhai gydag AAA, gynnydd rhagorol tuag at gyrraedd eu potensial.

16 Mae safonau a chynnydd y plant dan bump a'r disgyblion ar draws yr ysgol yn y medrau allweddol yn dda gyda nodweddion rhagorol. Ar draws yr ysgol mae sgiliau cyfathrebu llafar rhan fwyaf o'r disgyblion yn rhagorol. Maent yn darllen yn rhugl yn y Gymraeg gyda mynegiant a dealltwriaeth dda o'r testun. Ysgrifennant yn dda mewn gwahanol ffurfiau ieithyddol. Serch hynny nid yw llawysgrifen a chyflwyniad mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cyfiawnhad â'u cyflawniad. Mae medrau cyfathrebu rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn Saesneg yn dda. Darllenant yn rhugl a hyderus a defnyddiant eu medrau ysgrifennu yn effeithiol wrth ymdrin â nifer o agweddau o'r cwricwlwm.

17 Ar draws yr ysgol mae medrau mathemategol, datrys problemau a chreadigol y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn hyderus iawn wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a gwnânt ddefnydd eang o'u medrau i ymchwilio, arbrofi a chyflwyno gwybodaeth. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol. Ar draws yr ysgol mae medrau creadigol disgyblion yn dda. Mae cymhwysedd dwyieithog y dysgwyr yn rhagorol.

18 Mae ymddygiad ac ymagweddau'r disgyblion bron yn ddieithriad yn rhagorol ar adegau ffurfiol ac anffurfiol ym mywyd yr ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir. Mae lefelau presenoldeb yr ysgol ar draws y tri thymor llawn ddiwethaf yn 94.8%. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol. Mae prydlondeb, gydag ychydig eithriadau, yn dda.

19 Mae nodweddion rhagorol yn natblygiad ysbrydol, moesol, personol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae eu perthynas gyda'i gilydd yn ardderchog. Maent yn ystyriol, cyfeillgar a chwrtais i'w gilydd, staff ac ymwelwyr. Cyd-weithiant yn effeithiol gyda'i gilydd gan gefnogi'r naill ar llall yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Maent yn ymwybodol o'r angen i gadw'n iach.

20 Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd gwaith a'r gweithle yn dda. Mae elfen o ragoriaeth yn eu dealltwriaeth o ddiwylliant a thraddodiadau lleol a'u cyfraniad a'u parch tuag at eu cymuned.

**Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

21 Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 42% | 58% | 0% | % | 0% |

22 Mae'r ffigurau hyn dangos gwelliant sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Maent hefyd yn rhagori ar y darlun cenedlaethol a adroddwyd gan PAEM yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2007-2008.

23 Mae nodweddion rhagorol yn ansawdd y perthnasau cydrhwng athrawon, y cynorthwywyr cynnal dysgu a'r disgyblion. Cydweithia'r athrawon a'r staff cynnal yn agos iawn i greu hinsawdd sy'n gydnaws â dysgu effeithiol. Yn y gwersi a farnwyd yn rhagorol, ceir cyflwyniadau egnïol a bywiog, tasgau heriol wedi eu selio ar brofiadau uniongyrchol, sgiliau holi ymestynnol ac amrywiaeth o strategaethau addysgu sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol. Ar draws yr ysgol gwelir ôl paratoi trylwyr a chynllunio'n effeithiol mewn ymateb i anghenion y gwahanol alluoedd o fewn y dosbarth. Ceir awyrgylch drefnus a chadarnhaol a rheolaeth dda ar amser. Gwneir defnydd rhagorol o sgiliau'r cymorthyddion.

24 Ar y cyfan mae gweithdrefnau asesu, cofnodi ac adrodd yn dda. Maent yn weithredol ac yn bodloni gofynion statudol. Serch hynny ni wneir defnydd digon cyson o asesu ar gyfer tracio cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol. Cydnabyddir hyn gan yr ysgol.

25 Mae'r ysgol yn ymateb yn rhagorol i anghenion a diddordebau'r disgyblion a'r gymuned ehangach. Caiff yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys. Mae rhagoriaeth yn y defnydd a wneir o'r ardal leol fel canolbwynt i'r dysgu. Cyfoethogir profiadau dysgu gan bartneriaethau hynod o effeithiol gyda'r gymuned, ysgolion eraill a sefydliadau allanol. Hyrwyddir ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith yn effeithiol gan amrediad eang o gysylltiadau â busnesau. O'r cyfnod sylfaen i fyny mae'r ysgol yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer dysgu gydol oes drwy sicrhau bod disgyblion yn gynyddol ymwybodol o'u cyfrifoldeb am eu cymuned a'r gymdeithas fyd eang.

26 Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i'r disgyblion yn rhagorol. Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth ragorol gyda'r rhieni. Mae'r polisïau a'r holl weithdrefnau gofynnol parthed monitro prydlondeb, presenoldeb, ymddygiad a pherfformiad dysgwyr yn fanwl a threfnus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn rhagorol ac yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol. Mae gweithdrefnau'r ysgol sy'n ymwneud â chyfle cyfartal a chynnal ymddygiad da yn weithredol ac yn hynod o effeithiol. Fe adlewyrchir hyn ym mywyd a gwaith bob dydd yr ysgol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

27 Mae sawl elfen o ragoriaeth yn arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a heriol ar gyfer yr ysgol wedi ei selio ar werthoedd cadarn. Cefnogir y weledigaeth gan dîm rheolaethol a staff effeithiol a brwdfrydig. Mae elfen o ragoriaeth yn y ffordd y mae'r Llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau. Bu'r corff llywodraethol yn hynod o weithredol yn eu hymgyrch i sicrhau dyraniadau cyllidol teilwng i'r ysgol.

28 Mae nodau ac amcanion cytunedig yr ysgol yn glir ac yn canolbwyntio ar greu a chynnal cymuned ddysgu hapus ac effeithiol er mwyn gwella dysgu a lles dysgwyr. Mae'r weledigaeth a'r cyfeiriad a osodir yn cael eu hadlewyrchu'n glir yng ngwaith ac ethos yr ysgol. Mae'r ysgol yn flaengar wrth ymateb i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol ac yn arloesol yn y defnydd o TGCh i ehangu a chyfoethogi profiad addysgol y dysgwyr ac i rannu gwybodaeth yn hynod o effeithiol.

29 Mae ymrwymiad cryf tuag at welliant parhaus yn yr ysgol ac mae diwylliant o hunan arfarnu yn bodoli o fewn yr ysgol. Mae'r broses yn gynhwysol ac mae elfen o ragoriaeth yn y ffordd y mae'r ysgol yn weithredol wrth geisio canfod barn dysgwyr, staff, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae'r gweithdrefnau'n gynhwysfawr er nad ydynt ar hyn o bryd yn canolbwyntio'n ddigonol ar gyflawniad grwpiau penodol o ddisgyblion. Cydnabyddir hyn gan yr ysgol.

30 Gwneir defnydd rhagorol o holl adnoddau'r ysgol. Mae dyraniad ychwanegol o arian 'grant lleihau maint' yr AALl yn golygu fod gan yr ysgol nifer digonol o athrawon a staff ar gyfer y nifer disgyblion. Mae ymroddiad yr holl staff yn hybu nodau'r ysgol yn hynod o effeithiol. Mae'r ysgol wedi addasu hen gaban symudol 'Mudiad Ysgolion Meithrin' i greu dosbarth gorlif ychwanegol i ddisgyblion B5 a B6, ac mae'r Corff Llywodraethol yn parhau i gydweithio gyda'r

ALl i wireddu cynlluniau ar gyfer addasrwydd ac ansawdd yr adeilad i'r dyfodol. Gwneir defnydd rhagorol o'r adnoddau oddi fewn a thu hwnt i ffiniau'r ysgol i greu amgylchedd sy'n hybu'r dysgu a'r addysgu. Bu'r ysgol yn flaengar wrth ddarparu adnoddau TGCh. Mae rheolaeth ariannol yr ysgol yn drylwyr. Goruchwylir y cyllid yn ofalus gan bwyso a mesur penderfyniadau. Mae'r ysgol yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r ysgol:

A1 wella ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion cyfnod allweddol 2;

A2 wneud gwell defnydd o asesu ar gyfer tracio cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol;

A3 greu mwy o gyfleoedd strwythuredig i staff ffurfio barn ar ba mor dda mae'r dysgwyr yn cyflawni;

A4 barhau i gydweithio gyda'r AALl i wireddu'r cynlluniau ar gyfer gwella addasrwydd ac ansawdd yr adeilad a'r safle.

*Mae argymhelliad A2, A3 ac A4 eisoes yn flaenoriaethau yn yr adroddiad hunan arfarnu neu'r CDY.*

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

## Safonau

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

31 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

32 Mae asesiadau statudol athrawon yn 2009 yn dangos bod 93.5% o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd hynny yw, y lefel 2 disgwyliedig yn y tri phwnc Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 81.1%. Mae cyraeddiadau'r disgyblion saith oed yn y tri phwnc yn ôl asesiad athrawon yn uwch na chyfartaleddau'r teulu, yr AALl a cenedlaethol.

33 Yn yr un flwyddyn yng nghyfnod allweddol 2, mae 100% o ddisgyblion yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd ar lefel 4 neu uwch yng Nghymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 77.0%. Mae cyrhaeddiad y disgyblion 11 oed yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn sylweddol uwch na chyfartaleddau'r teulu, yr AALl a cenedlaethol. Mae'r ganran sy'n cyflawni'r lefelau uwch yn y ddau gyfnod allweddol hefyd yn sylweddol uwch na'r canrannau cenedlaethol. Mae cyrhaeddiad y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 o'i gymharu ag ysgolion

tebyg hynny yw, yr ysgolion hynny gyda niferoedd tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf.

34 O ystyried y data dros dreigl amser o dair blynedd mae canlyniadau asesiadau'r CC yn y ddau gyfnod yn gyson uwch nag ysgolion tebyg gyda'r dangosydd pwnc craidd yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn y chwartel uchaf. Nid oes patrwm arwyddocaol yn amlygu ym mherfformiad bechgyn a merched. Mae perfformiad y merched trwyddi draw yn rhagori ar y bechgyn gan adlewyrchu'r darlun cenedlaethol.

35 Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 38% | 62% | 0% | 0% | 0% |

36 Mae'r ffigurau hyn dangos gwelliant sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Maent hefyd yn rhagori ar y darlun cenedlaethol a adroddwyd gan PAEM yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2007 i 2008. Yn genedlaethol, mae safonau'n dda neu'n well (Gradd 1 a 2) mewn 84% o wersi ac mae safonau'n rhagorol (Gradd 1) mewn 12% o wersi.

37 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd rhagorol tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, yn cydweithredu gyda'i gilydd yn dda ac yn ymgymryd yn frwdfrydig â gweithgareddau heriol sy'n cryfhau ac yn datblygu eu dysgu.

38 Mae safonau yn y meysydd dysgu a arolygwyd yn y cyfnod sylfaen fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol | Gradd 1 |
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu | Gradd 1 |
| Datblygiad mathemategol | Gradd 1 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd | Gradd 1 |
| Datblygiad corfforol | Gradd 1 |
| Datblygiad creadigol | Gradd 1 |

39 Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, yn y pynciau a arolygwyd mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

| Pynciau | Cyfnod Allweddol 1 | Cyfnod Allweddol 2 |
|---|---|---|
| Saesneg | Amherthnasol | Gradd 2 |
| Dylunio a Thechnoleg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Daearyddiaeth | Gradd 1 | Gradd 1 |
| Cerddoriaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg Gorfforol | Gradd 1 | Gradd 1 |

40 Gwna'r holl ddysgwyr, beth bynnag yw eu hoed, rhyw, gallu, cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol gan gynnwys y rhai gydag AAA, gynnydd da wrth gaffael medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Cyflawnant dargedau a nodau cytunedig. Wrth symud drwy'r ysgol maent yn sicrhau gwybodaeth ac yn dangos dealltwriaeth dda o'u medrau ac yn defnyddio'u sgiliau mewn sefyllfaoedd newydd yn hyderus a llwyddiannus.

41 Ar draws yr ysgol mae sgiliau cyfathrebu llafar rhan fwyaf o'r disgyblion gyda'i gilydd a gydag oedolion yn rhagorol. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn gwrando'n dda, yn cyfathrebu'n gyda'i gilydd ac yn darllen ac ysgrifennu yn ôl eu gallu a'u hoedran. Maent yn mynegi eu hunain yn dda gan ddangos gafael briodol ar gystrawen a geirfa. Siaradant yn hyderus gada'i gilydd a chydag oedolion. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn mynegi eu hunain yn effeithiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Maent yn barod iawn i drafod eu gwaith. Siaradant yn hyderus gan arddangos meistrolaeth ar gystrawennau ac ymadroddion. Maent yn gwrando'n astud ar yr athrawon ac ar ei gilydd. Mae eu gallu i ddarllen yn y Gymraeg yn dda gyda'r rhan fwyaf yn darllen y rhugl, gyda mynegiant a dealltwriaeth dda o'r testun. Ysgrifennant yn dda mewn gwahanol ffurfiau ieithyddol. Serch hynny nid yw llawysgrifen a chyflwyniad mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cyfiawnhad a'u cyflawniad.

42 Mae medrau cyfathrebu rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn Saesneg yn dda. Darllenant yn rhugl a hyderus a defnyddiant eu medrau ysgrifennu yn effeithiol wrth ymdrin â nifer o agweddau o'r cwricwlwm.

43 Ar draws yr ysgol, mae medrau mathemategol a datrys problemau y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n dda. Gwnânt ddefnydd effeithiol o'u medrau rhif, mesur a dadansoddi data i gefnogi eu gwaith mewn nifer o bynciau. Maent yn hyderus iawn wrth ddefnyddio TGCh a gwnânt ddefnydd eang o'u medrau i ymchwilio, arbrofi a chyflwyno gwybodaeth. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol. Ar draws yr ysgol mae medrau creadigol disgyblion yn dda.

44 Mae cymhwysedd dwyieithog y dysgwyr yn rhagorol. Maent yn datblygu'n hyderus ddwyieithog ac yn ymdrin yn dda a thestunau yn y ddwy iaith.

45 Mae ymddygiad ac ymagweddu'r disgyblion bron yn ddieithriad yn rhagorol ar adegau ffurfiol ac anffurfiol ym mywyd yr ysgol. Maent yn ymwybodol o reolau'r ysgol ac yn eu parchu. Maent yn dangos diddordeb amlwg yn yr hyn maent yn ei wneud, yn canolbwyntio'n dda ac yn cael boddhad amlwg o'r profiadau eang. Mae eu gallu i weithio'n annibynnol dan gyfarwyddyd eu hathrawon yn dda. Mae'r disgyblion yn arbennig o gwrtais gydag oedolion, gan gynnwys ymwelwyr. Ni fu achos i ddiarddel unrhyw ddisgybl o fewn cof. Mae'r cyngor ysgol yn gweithredu'n dda ac yn aeddfed. Ei hawyrgylch gartrefol yw un o brif gryfderau'r ysgol. Caiff effaith gadarnhaol ar gynnydd y disgyblion ac fe'i canmolir gan rieni.

46 Mae lefelau presenoldeb yr ysgol ar draws y tri thymor llawn ddiwethaf yn 94.8%. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol. Mae prydlondeb, gydag ychydig eithriadau, yn dda.

47 Mae nodweddion rhagorol yn natblygiad ysbrydol, moesol, personol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae eu perthynas gyda'i gilydd yn ardderchog. Maent yn ystyriol, cyfeillgar a chwrtais i'w gilydd, staff ac ymwelwyr. Cydweithiant yn effeithiol gyda'i gilydd gan gefnogi'r naill ar llall yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Mae eu dealltwriaeth o onestrwydd a thegwch yn amlwg ym mhob agwedd o'u gwaith a dangosant barch, gofal a phryder amlwg am eraill. Maent yn ymwybodol o'r angen i gadw'n iach. Mae profiadau amrywiol tu mewn a thu allan i'r ysgol yn rhan naturiol o fywyd a phrofiadau pob dydd y disgyblion. Mae ymweliadau i ganolfannau preswyl megis yn cyfrannu'n helaeth at y sgiliau cymdeithasol da a welir. Mae hyn oll yn cyfrannu'n helaeth at greu ethos pleserus sydd yn hyrwyddo dysgu.

48 Mae ymwybyddiaeth disgyblion o gyfle cyfartal yn dda. Maent yn parchu amrywiaeth mewn cymdeithas ac yn ymateb yn gadarnhaol a chefnogol i ddiwylliannau gwahanol. Mae eu dealltwriaeth o beth yw bod yn gymunedwyr da yn amlwg a dangosant gydymdeimlad at rai llai ffodus na hwy eu hunain.

49 Maent yn ymateb yn bositif iawn i astudiaethau crefyddol sy'n trin a thrafod defodau a thraddodiadau crefyddau eraill. Dangosant barch a diddordeb amlwg yn ystod y gwasanaethau addoli ar y cyd.

50 Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd gwaith a'r gweithle yn dda. Mae elfen o ragoriaeth yn eu dealltwriaeth o ddiwylliant a thraddodiadau lleol a'u cyfraniad a'u parch tuag at eu cymuned. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd o'u cwmpas ac yn rhoi sylfaen gadarn iddynt ym mhwysigrwydd byd gwaith a dinasyddiaeth.

## Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

51 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

52 Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 42% | 58% | 0% | % | 0% |

53 Mae'r ffigurau hyn dangos gwelliant sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Maent hefyd yn rhagori ar y darlun cenedlaethol a adroddwyd gan PAEM yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2007-2008. Yn genedlaethol, mae ansawdd yr addysgu'n dda neu'n well (Gradd 1 a 2) mewn 83% o wersi ac mae ansawdd yr addysgu'n rhagorol (Gradd 1) mewn 16% o wersi.

54 Mae gan ansawdd yr addysgu effaith gadarnhaol ar ymagweddau disgyblion tuag at ddysgu a'u safonau cyflawniad. Arsylwyd ar addysgu rhagorol ar draws yr ysgol.

55 Lle mae nodweddion rhagorol i'r gwersi, maent yn cynnwys:

- cyflwyniadau diddorol a bywiog a thasgau sydd yn ysgogi diddordeb a chymhelliant y disgyblion gan gynnwys cyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol;
- medrau cwestiynu eithriadol o dda sydd yn golygu fod disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu gallu i gyfathrebu;
- defnydd eithriadol o adnoddau ac yn enwedig yr amgylchedd lleol sydd yn ysgogi disgyblion ac yn ymestyn eu dysgu, a
- chefnogaeth ragorol i bob dysgwr o bob gallu a gaiff ei ddarparu gan gynorthwywyr dysgu cydwybodol a medrus.

56 Yn yr holl wersi a welwyd, mae'r nodweddion da yn cynnwys:

- cynllunio gofalus iawn ac amcanion dysgu eglur i bob disgybl;

- gwybodaeth bynciol da gyda thasgau addas sydd yn cyfateb i anghenion yr unigolion;
- dosbarthiadau wedi eu trefnu'n dda ac athrawon yn defnyddio adnoddau, gan gynnwys TGCh, yn briodol gyda disgyblion ynghlwm yn weithredol yn eu dysgu;
- cyflymder da i wersi gyda disgwyliadau uchel o bob disgybl;
- defnydd effeithiol o ystod o strategaethau gan gynnwys addysgu dosbarth-cyfan, gwaith grŵp, gwaith pâr a gwaith unigol;
- ymyrraeth briodol gan athrawon yn unol ag oed a gallu'r holl ddisgyblion, a
- defnydd effeithiol o ganmoliaeth ac anogaeth i gymell disgyblion a gwobrwyo eu hymdrechion.

57 Mae gan athrawon berthynas ardderchog gyda'r disgyblion sydd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn ymwybodol o'u hanghenion. Ceir cysylltiadau a phontio da iawn o'r cylch Mudiad Ysgolion Meithrin sydd yn galluogi'r plant i ymgartrefu'n gyflym i drefn y dosbarth meithrin.

58 Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gan athrawon ddealltwriaeth eglur o anghenion plant ieuanc ac mae'r cynllunio yn effeithiol. Mae gwersi'n gyffrous, ysgogol, yn seiliedig ar brofiadau uniongyrchol ac yn darparu cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau a gychwynnir gan blant a rhai a arweinir gan oedolion. Defnyddir gwybodaeth o'r asesiadau gwaelodlin mynediad a'r waelodlin statudol yn effeithiol i sicrhau y rhoddir tasgau i ddisgyblion sydd yn cydweddu eu hanghenion.

59 Defnyddia'r athrawon ystod dda o dechnegau i ymestyn medrau dwyieithog y disgyblion, yn enwedig y rhai siarad a gwrando. Mae hyn yn arbennig o effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 1 gyda staff yn sensitif i anghenion a lles y disgyblion sydd yn dechrau'r ysgol a dim ond yn medru siarad Saesneg. Yng nghyfnod allweddol 2, hyrwyddir llythrennedd deuol yn effeithiol iawn.

60 Mae ansawdd yr asesu, cofnodi ac adrodd yn gyffredinol dda. Mae'r ysgol yn diwallu'r gofynion statudol ar gyfer asesu, cofnodi ac adrodd. Ymgymerir ag asesiad ar fynediad wrth i blant ddechrau yn y dosbarth meithrin a chynhelir yr asesiad gwaelodlin statudol yn y dosbarth derbyn. Mae athrawon yn parhau i arsylwi disgyblion yn agos ac yn datblygu asesu yn unol â'r Cyfnod Sylfaen.

61 Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, defnyddia'r ysgol ystod o brofion safonol yn ogystal ag asesiadau athrawon i asesu cynnydd disgyblion ac i osod targedau. Nid yw'r gweithdrefnau presennol yn gwneud defnydd llawn o'r wybodaeth hon i dracio cynnydd disgyblion ym mhob pwnc ar draws yr ysgol.

62 Caiff gwaith ei farcio'n rheolaidd a rhoddir adborth llafar ac ysgrifenedig. Yn yr enghreifftiau gorau, rhoddir sylwadau adeiladol i gynorthwyo'r disgyblion i ddeall sut medrent wella'u gwaith. Anogir disgyblion i hunanasesu eu gwaith yn erbyn y meini prawf llwyddiant gaiff ei osod yn eglur ar ddechrau'r wers. Gosodir targedau mewn iaith a mathemateg a chânt eu rhoi ar ddechrau llyfrau'r disgyblion.

63 Mae trefniadau mewn lle i safoni a chymedroli asesiadau athrawon mewn cydweithrediad ag ysgolion cynradd lleol yn ogystal â'r ysgol uwchradd.

64 Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn diwallu'r gofynion statudol ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion a'r hyn maent wedi eu hastudio. Mae rhieni a disgyblion yn ymateb i'r adroddiadau a chânt eu hannog i'w trafod gyda'i gilydd.

65 Yn ddiweddar dosbarthwyd CD i'r holl rieni/gofalwyr sydd yn dangos yr ystod o gyfleoedd a ddarperir yn y Cyfnod Sylfaen a'r medrau a ddatblygir gan ddysgwyr. Bu'n arf hynod o effeithiol i hysbysu rhieni am y datblygiadau diweddaraf o fewn y Cyfnod Sylfaen.

## Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

### Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

66 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

67 Mae'r ysgol yn ymateb yn rhagorol i anghenion a diddordebau'r disgyblion ac yn cynnig mynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys. Mae'r ysgol wedi rhoi sylw gofalus i addasu'r cynlluniau gwaith mewn ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y trefniadau cwricwlwm ac asesu diwygiedig yng Nghymru 2008 a'r Fframwaith Sgiliau. Caiff cynnwys maes llafur y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) lleol ei gyflawni'n dda. Mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â gofynion statudol.

68 Darparwyd polisïau a chynlluniau gwaith manwl iawn ar gyfer yr holl feysydd dysgu. Mae'r cynllunio'n drylwyr iawn ac yn sicrhau gweithgareddau symbylol a diddorol. Mae hyn yn sicrhau ehangder, cydbwysedd, cynnydd a pharhad.

69 Mae'r ddarpariaeth gyffredinol yn y Cyfnod Sylfaen yn rhagorol. Mae'n diwallu anghenion y plant ac yn cwmpasu pob maes dysgu yn effeithiol iawn. Mae wedi ei selio'n gadarn ar egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac wedi datblygu'r ethos a'r addysgeg yn ôl canllawiau LlCC.

70 Darperir cyfleoedd da gyda rhai nodweddion rhagorol i sicrhau bod disgyblion yn ennill medrau sylfaenol ac allweddol. Mae nodweddion rhagorol i'r ffordd mae medrau TGCh a rhifedd wedi eu plethu i sawl agwedd o'r cwricwlwm. Rhoddir sylw amlwg i hybu sgiliau datrys problemau disgyblion a'u gallu i wneud dewisiadau a bod yn greadigol. Rhoddir sylw da i hybu medrau cyfathrebu yn y Gymraeg a Saesneg.

71 Mae rhagoriaeth yn y ddarpariaeth addysgol oddi ar y safle a thu allan i oriau ysgol. Mae'r defnydd a wneir o'r ardal leol fel canolbwynt i'r dysgu yn arbennig o dda. Mae'r profiadau hyn yn ymestyn a chyfoethogi'r cwricwlwm yn hynod o effeithiol. Maent yn niferus ac yn hyrwyddo a chefnogi agweddau o'r cwricwlwm a datblygiad medrau personol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus iawn.

72 Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn rhagorol. Caiff adnabyddiaeth y disgyblion o werthoedd Cristnogol ei datblygu'n effeithiol. Yn y sesiynau cydaddoli mae naws addolgar arbennig. Fe gydymffurfia'r ysgol yn llawn â'r gofynion statudol. Mae sesiynau 'amser cylch' yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a dealltwriaeth y disgyblion o faterion moesol a chymdeithasol ac yn

eu cynorthwyo i barchu gwirionedd a chyfiawnder. Rhoddir pwysigrwydd priodol i ofynion y rhaglen ABCh ym mywyd bob dydd yr ysgol.

73 Cyfoethogir profiadau dysgu gan bartneriaethau effeithiol gyda rhieni. Mae'r cydweithio agos rhwng y rhieni a'r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn sylweddol. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn weithgar ac yn cyfrannu'n dda tuag at brynu ac adnewyddu adnoddau cefnogi dysgu ac ymweliadau addysgol.

74 Mae partneriaeth gref yn ogystal â'r gymuned, ysgolion eraill a sefydliadau allanol. Fe wneir defnydd rhagorol o adnoddau'r ardal leol megis Llanberis, Caernarfon ac Eryri. Mae ymweliadau rheolaidd yn atgyfnerthu gwaith dosbarth a daw ymwelwyr o'r gymuned i siarad â'r disgyblion am nifer o destunau.

75 Mae cysylltiadau a phartneriaeth dda gydag ysgolion cynradd y dalgylch. Mae'r drefniadaeth ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgolion uwchradd lleol yn dda, gydag ymweliadau gan athrawon pontio.

76 Mae gan yr ysgol amrediad eang o gysylltiadau â busnesau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith. Daw nifer o aelodau o'r gweithle i'r ysgol i drafod eu gwaith gyda'r disgyblion fel rhan o'u rhaglen addysgol. Rhoddir sylw rhagorol i ddatblygu sgiliau menter y disgyblion. Trwy ystod o weithgareddau megis gwerthu planhigion, creu gwefannau i fusnesau lleol a chynllun mentergarwch a dinasyddiaeth fyd eang, caiff y disgyblion cyfleoedd gwerthfawr i'r pwrpas yma.

77 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau dwyieithog y disgyblion yn rhagorol. Mae cyflwyno agweddau o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn hyrwyddo eu datblygiad yn effeithiol. Rhoddir sylw da i astudio treftadaeth Cymru. Bodlonir gofynion y Cwricwlwm Cymreig yn llwyr. Mae'r agweddau yma o waith yr ysgol yn amlwg iawn mewn sawl maes dysgu.

78 Mae gan yr ysgol bolisïau gofynnol ar gyfer cyfleoedd cyfartal, gwrth hiliaeth, asesiadau risg, amddiffyn plant ac hygyrchedd anableddau. Fe weinyddir y polisïau yn effeithiol ac fe'u hadolygir yn drefnus a gofalus.

79 Mae'r sylw a roddir i ddatblygiad cynaliadwy yn rhagorol. Mae ymrwymiad yr ysgol i'r cynlluniau Ysgol Iach, Ysgol Werdd a Masnach Deg yn sicrhau pwyslais priodol ar hyrwyddo elfennau megis bwyta'n iach, hybu ffitrwydd, cynaladwyedd a chyfrifoldebau amgylcheddol ym mlaenoriaethau'r ysgol.

80 O'r cyfnod sylfaen i fyny, mae'r ysgol yn gosod sylfaeni cadarn ar gyfer dysgu gydol oes drwy sicrhau bod disgyblion yn gynyddol ymwybodol o'u cyfrifoldeb am eu cymuned a'r gymdeithas fyd eang.

## Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

### Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

81 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

82 Mae'r ysgol yn llwyddo yn ei nod o greu ethos sy'n annog gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol ac mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i'r disgyblion yn rhagorol. Mae'r disgyblion yn hapus dros ben yn yr ysgol

ac mae perthynas dda iawn rhyngddynt â'i gilydd ac â holl aelodau'r staff. Mae ethos gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol ac mae'r disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan bawb. Y mae'r parch a ddangosir tuag at ddisgyblion, y pwyslais ar godi hunan barch a'r ffocws ar ddatblygu ymwybyddiaeth o anghenion eraill yn elfen gref iawn o fywyd yr ysgol. Teimla'r disgyblion yn gysurus yn eu gallu i droi at unrhyw aelod o'r staff am gyfarwyddyd neu gymorth.

83 Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth ragorol gyda'r rhieni ac fe roddir pwyslais mawr ar yr agwedd yma ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae gan y rhieni hyder amlwg yn y gofal a'r cyfarwyddyd a gaiff eu plant ac yn y ffordd mae'r ysgol yn ymateb yn syth i unrhyw achosion o bryder.

84 Mae disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn dilyn eu trosglwyddiad o'r Cylch Meithrin. Drwy'r cysylltiad agos a gweithredol sydd rhwng yr ysgol a'r Cylch mae hyn yn llwyddiannus iawn. Teimla'r disgyblion yn ddiogel ac yn gartrefol yn syth a chânt gefnogaeth dda gan yr athrawon a'r cymorthyddion. Mae rhaglen bontio effeithiol iawn yn ei lle i ddisgyblion B6 cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

85 Rhoddir ystyriaeth fanwl iawn i ABCh wrth drefnu gweithgareddau. Mae'r disgyblion yn elwa'n sylweddol o'r cyfleoedd a gânt yn ystod gwersi penodol, cydaddoli dyddiol a chyfnodau amser cylch. Mae'r cyngor ysgol yn cyfrannu tuag at hyn ac yn cynrychioli'r disgyblion yn effeithiol iawn gan sicrhau bod llais disgyblion yn cael ei hystyried o ddifrif. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn trafod materion a godir mewn ffordd aeddfed a chyfrifol. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau fod dysgwyr yn ymwybodol o'r angen i gadw'n iach.

86 Mae'r polisïau a'r holl weithdrefnau gofynnol parthed monitro prydlondeb, presenoldeb, ymddygiad a pherfformiad dysgwyr yn fanwl a threfnus. Maent oll yn gynhwysfawr ac wedi eu llunio yn ofalus. Mae'r cofrestrau a'r weinyddiaeth gysylltiedig, gyda chofnodion da yn ymateb i ofynion statudol.

87 Mae aelodau'r staff i gyd yn gwybod am drefniadau'r ysgol yn y maes amddiffyn plant ac mae'r trefniadau gweithredu wedi eu sefydlu'n dda. Ceir polisïau a gweithdrefnau clir i sicrhau lles, iechyd a diogelwch y disgyblion, ac mae materion sydd yn codi pryder yn cael sylw syth. Mae diogeled yr adeilad hefyd yn effeithiol. Mae asesiadau risg yn cael sylw gofalus dros ben ac yn nodwedd ragorol o waith yr ysgol.

88 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn rhagorol ac yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol. Mae gan yr ysgol drefniadau manwl ac effeithiol o ddarganfod yn fuan ddisgyblion sydd angen cymorth. Mae'r cydlynydd yn cadw cofnodion trefnus a chyfredol o'r gwaith ac yn adolygu'r ddarpariaeth yn rheolaidd. Mae'n rhoi cymorth ac arweiniad effeithiol dros ben i'r athrawon a'r cymorthyddion.

89 Mae'r trefniant i roi cymorth i'r disgyblion mewn ystafell ddynodedig cartrefol yn fodd i greu hyder a chynnydd. Mae'r cynllunio gwahaniaethol yn y dosbarthiadau'n dda ac yn briodol i anghenion y disgyblion. Gwneir defnydd effeithlon o wasanaethau cynhaliaeth ar gyfer helpu disgyblion.

90 Mae'r cynlluniau addysg unigol (CAU) sy'n cael eu darparu'n ofalus ar gyfer disgyblion ag AAA ac yn cynnwys targedau dysgu penodol ac yn cyfateb yn dda

iawn i'w hanghenion. Adolygir y rhain yn rheolaidd. Dengys cofnodion yr ysgol bod disgyblion yn gwneud cynnydd da.

91 Mae gan yr ysgol bolisïau clir a gweithredol ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal, cydraddoldeb hiliol ac amryfaliaeth. Rhoddir cyfleoedd addas i fechgyn a merched i fynychu holl weithgareddau yn yr ysgol a gweithgareddau allgyrsiol. Rhoddir sylw amlwg i oddefgarwch, cydberthnasau a pharch at eraill o fewn amseroedd cylch, gwasanaethau addoli ar y cyd a bywyd cyffredinol yr ysgol. Sicrheir cydraddoldeb rhyw yn y cwricwlwm trwy herio safbwyntiau ystrydebol yn effeithiol. Mae'r ychydig o ddisgyblion sydd yn dod i'r ysgol o dras ethnig lleiafrifoedd yn integreiddio'n sydyn a llwyddiannus dros ben.

92 Ceir rheolaeth a monitro effeithiol o ymddygiad. Medda'r ysgol ar nifer o fesurau effeithiol iawn i ddileu ymddygiad gormesol megis bwlio. Er enghraifft, mae'r arweiniad clir a chysondeb holl aelodau'r staff yn sicrhau hinsawdd dda ar gyfer hyrwyddo ymddygiad derbyniol. Mae'r ysgol yn monitro ac yn ymateb yn dda i achosion o ymddygiad gormesol, ac yn cymryd camau synhwyrol i atal digwyddiadau annerbyniol rhag digwydd eto. Fe gadarnhawyd hyn gan gyngor yr ysgol.

93 Mae'r ysgol wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw disgyblion anabl yn dioddef o gael eu trin yn llai ffafriol. Mae addasiadau priodol rhag eu gosod dan anfantais sylweddol wedi eu cyflawni.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

**Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

94 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

95 Mae sawl elfen o ragoriaeth yn arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a heriol ar gyfer yr ysgol wedi ei selio ar werthoedd cadarn. Mae'n uchel ei barch yn y gymuned ysgol. Cefnogir y weledigaeth gan dîm rheolaethol a staff effeithiol a brwdfrydig. Mae ymrwymiad cryf tuag at welliant parhaus yn yr ysgol.

96 Mae'r berthynas ragorol rhwng y staff yn effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol y disgyblion. Pwysleisir fod pob aelod o staff yn arweinydd ar lefel wahanol, ac felly fod gan bob aelod o staff gyfrifoldeb rheolaethol ar wahanol lefelau. Mae rolau'r arweinyddion timau pwnc yn hyrwyddo cydweithredu a chefnogaeth dda i bob athro. Mae cyfraniad cynorthwywyr dosbarth yn hynod o effeithiol. Mae tîm effeithiol yn bodoli yn yr ysgol, gyda phlant, rhieni, staff a llywodraethwyr yn cydweithio'n effeithiol tuag at yr un nod.

97 Mae nodau ac amcanion cytunedig yr ysgol yn glir ac yn canolbwyntio ar greu a chynnal cymuned ddysgu hapus ac effeithiol er mwyn gwella dysgu a lles dysgwyr. Mae'r weledigaeth a'r cyfeiriad a osodir yn cael eu hadlewyrchu'n glir yng ngwaith ac ethos yr ysgol. Mae'r defnydd a wneir o'r gymuned a'r ardal leol fel canolbwynt i'r profiadau addysgu yn rhagorol. Mae gwefan yr ysgol yn dangos pa mor bell mae'r ysgol wedi datblygu technoleg fodern i gynnig

arweiniad proffesiynol rhyngweithiol rhwng, ysgol, cartrefi ac AALl. Mae'r galeri ar wefan yr ysgol yn adlewyrchu cwricwlwm modern a chynhwysfawr.

98 Mae'r weledigaeth yn deillio o ymwybyddiaeth effeithiol o'r datblygiadau diweddaraf, yn lleol, yn genedlaethol, ac yn rhyngwladol sydd yn effeithio ar addysg plant a beth sydd yn gwneud ysgol effeithiol. Mae'r ysgol yn flaengar wrth ymateb i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol ac yn arloesol yn y defnydd o TGCh i ehangu a chyfoethogi profiad addysgol y dysgwyr ac i rannu gwybodaeth yn hynod o effeithiol. Rhoddir pwyslais priodol ar egwyddorion Ysgolion Iach ac Ysgolion Gwyrdd. Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol iawn wrth baratoi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac wrth adolygu'r cynlluniau gwaith tymhorol mewn ymateb i'r trefniadau cwricwlwm ac asesu diwygiedig ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2. Mae cydweithredu da gydag ysgolion lleol eraill o fewn clwstwr er enghraifft wrth ddatblygu agweddau o Addysg Gorfforol a Chwaraeon ac wrth gyd gymedroli asesiadau cyfnod allweddol 2/cyfnod allweddol 3. Mae cydweithio effeithiol hefyd gydag asiantaethau eraill megis lles a diogelwch y ffyrdd.

99 Mae gan yr ysgol ddull priodol o osod targedau. Gosodir targedau a disgwyliadau heriol ond cyraeddadwy ar y staff a'r disgyblion, ac mae pwyslais mawr ar waith tîm,

100 Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol wedi eu sefydlu ar gyfer gwella medrau a hyfedredd athrawon. Darperir cyfleoedd da i staff i fynychu cyrsiau lleol a chenedlaethol priodol. Rhoddir cefnogaeth a chyngor i bob aelod o staff. Caiff cyfraniad ac ymroddiad pob unigolyn ei werthfawrogi yn yr ysgol.

101 Mae elfen o ragoriaeth yn y ffordd y mae llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau. Mae ganddynt wybodaeth dda o'r ysgol, yn deall eu rolau ac yn gwneud cyfraniad arbennig yn enwedig wrth ymwneud â chyllid, rheoli perfformiad, ac adeiladau. Gwnânt gyfraniad effeithiol i osod cyfeiriad strategol yr ysgol gan bwyso a mesur yn ofalus y dewisiadau a roddir ger eu bron gan y pennaeth. Bu'r corff llywodraethol yn hynod o weithredol yn eu hymgyrch i sicrhau dyraniadau cyllidol teilwng i'r ysgol.

102 Mae'r corff llywodraethol yn llwyr fodloni'r holl ddyletswyddau cyfreithiol a osodir arnynt. Mae ganddynt ran weithredol yn y broses o lunio a mabwysiadu amcanion a pholisïau, ac o sicrhau fod rhieni yn derbyn gwybodaeth lawn am drefniadau, datblygiadau a chynnydd yr ysgol trwy'r Prosbectws a'r Adroddiad Blynyddol. Maent yn cymryd eu rôl fel cyfaill beirniadol o ddifrif a thrwy dderbyn gwybodaeth ac ymweld â'r ysgol yn cymryd rhan weithredol ac effeithiol yn y broses o wella dysgu a lles y disgyblion.

## Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

### Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

103 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

104 Mae'r pennaeth a'r staff yn dangos ymrwymiad llwyr i gynnal safonau uchel ac mae diwylliant o hunan arfarnu yn bodoli o fewn yr ysgol. Nodir yn glir y meysydd cwricwlwm a'r agweddau y bwriedir rhoi sylw iddynt dros gyfnod o dair

blynedd. Defnyddir canfyddiadau'r rhaglen hunan arfarnu i ddylanwadu ar y blaenoriaethau a nodir yn y CDY.

105 Defnyddir nifer o ddulliau o fewn y drefn hunan arfarnu gan gynnwys edrych ar gynlluniau dysgu, cyd drafod enghreifftiau o waith disgyblion a dadansoddi'n ofalus ganlyniadau asesiadau ffurfiol. Derbynnir adroddiadau tymhorol ymgynghorwyr i sylw'r pennaeth a'r corff llywodraethol. Wrth gyfnewid dosbarthiadau daw rhai arweinwyr pwnc yn gynyddol ymwybodol o gryfderau'r ysgol ac agweddau i'w datblygu. Serch hynny, nid yw'r trefniadau ar hyn o bryd yn manteisio'n ddigonol ar dystiolaeth uniongyrchol o ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol.

106 Mae elfen o ragoriaeth yn y datblygiadau arloesol diweddar o recordio gweithgareddau yn y dosbarth. Drwy ail chwarae'r deunydd mae athrawon yn cael mwy o amser i ddadansoddi ymateb y disgyblion ac i bwyso a mesur y dulliau dysgu ac addysgu. Mae'r dull yma o weithio wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth ddatblygu 'asesu ar gyfer dysgu' yn y cyfnod sylfaen. Mae portffolios digidol wedi eu creu sy'n enghreifftio arfer dda mewn sawl agwedd o waith yr ysgol. Gwneir defnydd effeithiol ohonynt mewn rhai pynciau fel arf i wella agweddau o'r addysgu. Serch hynny, yn gyffredinol nid yw'r broses o hunan arfarnu ar draws yr ysgol yn canolbwyntio'n ddigon penodol ar arfarnu safonau a gyflawnir gan y disgyblion ar draws yr ysgol a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella.

107 Mae'r broses o hunan arfarnu yn gynhwysol ac mae elfen o ragoriaeth yn y ffordd y mae'r ysgol yn weithredol wrth geisio canfod barn dysgwyr, staff, rhieni a'r llywodraethwyr. Caiff llywodraethwyr, rhieni a'r dysgwyr gyfleoedd rhagorol i gynnig barn am ystod eang o agweddau o'r ysgol drwy holiaduron ac ymweliadau. Ceir ymateb gan ganran uchel o rieni, ac fe'u dadansoddir yn ofalus. Gweithredir yn briodol ar nifer o'r argymhellion. Caiff dysgwyr hefyd gyfle i roi barn trwy'r cyngor ysgol. Mae'r arfer o ddefnyddio technoleg yn ogystal ag ymweliadau pwrpasol i gynnwys rhieni yn y broses o arfarnu datblygiadau megis y Cyfnod Sylfaen yn hynod o effeithiol.

108 Mae'r adroddiad hunan arfarnu a luniwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad yn gynhwysfawr a thrylwyr. Mae'n amlygu cryfderau ac agweddau i'w datblygu. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol ym mhob un o'r saith cwestiwn allweddol.

109 Defnyddir canfyddiadau'r hunan arfarnu yn effeithiol fel sail i flaenoriaethu ar gyfer y dyfodol. Trwy gyfrwng y CDY gweithredir rhaglen i ddiwallu'r anghenion a adnabuwyd. Mae'r blaenoriaethau a bennir yn y cynllun cyfredol yn addas ar gyfer datblygiad yr ysgol. Nodir y dulliau gweithredu o dan y gwahanol flaenoriaethau a'r deilliannau disgwyliedig ynghyd â'r monitro arfaethedig. Dynodir hefyd gyfrifoldebau gweithredu a chlustnodir adnoddau ar gyfer cefnogi'r datblygiadau. Bydd gweithrediad y rhaglen yn cael ei fonitro a'i arfarnu yn erbyn y targedau a'r meini prawf llwyddiant. Serch hynny, er bod agweddau ar safonau gwaith dysgwyr yn gynwysedig, nid yw'r meini prawf llwyddiant yn ddigon penodol yn nhermau cyflawniad grwpiau penodol o ddisgyblion. Cydnabyddir hyn gan yr ysgol.

110 Gwnaeth yr ysgol gynnydd rhagorol ers yr arolygiad diwethaf. Cymerwyd camau gweithredol priodol mewn ymateb i'r holl faterion allweddol. Cafodd y camau a gymerwyd effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion. Llwyddodd yr

ysgol i adeiladu ar safonau cyflawniad ac addysgu da nodwyd yn yr adroddiad blaenorol gan sicrhau rhagoriaeth mewn tri o'r pynciau/agweddau arolygwyd. Bu datblygiad amlwg mewn agweddau ar y broses hunan arfarnu ac yng nghyfraniad y tîm rheoli i ddatblygiad yr ysgol. Mae'r cynllunio tymor byr yn arf effeithiol ar gyfer herio disgyblion ar draws yr ystod gallu. Bu buddsoddiad sylweddol er mwyn datrys rhai o'r anawsterau gyda'r adeilad. Ymatebodd yr ysgol yn gadarnhaol i'r materion iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

### Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

### Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

111 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

112 Mae'r ysgol yn cyflogi nifer briodol o athrawon profiadol a chymwysedig i gyflwyno'r cwricwlwm ac i gefnogi disgyblion yn eu dysgu a'u datblygiad. Caiff ansawdd y tîm staff effaith rhagorol ar safonau. Gwna'r staff cynnal gyfraniad cadarnhaol iawn tuag at ddysgu'r disgyblion. Gwneir defnydd rhagorol o'r staffio ychwanegol sydd ar gael yn y Cyfnod Sylfaen.

113 Lleolir y staff yn dda a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd ar draws yr ysgol. Mae gweithdrefnau effeithiol mewn lle i ddatblygu'r staff yn unol â'r blaenoriaethau yn y CDY a'u datblygiad proffesiynol unigol. Aildrefnwyd y gweithlu'n effeithiol. Caiff y trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ag asesu'r athrawon eu rheoli'n dda ac maent yn gynhyrchiol.

114 Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau dysgu sydd yn cyfateb yn dda i'r profiadau dysgu ar gyfer pob oed a phwnc. Maent o ansawdd dda a gwneir defnydd effeithiol iawn ohonynt mewn gwersi. Gwnaeth yr ysgol fuddsoddiad arwyddocaol mewn technoleg gwybodaeth. Defnyddir hyn yn effeithiol iawn i ymglymu'r disgyblion ac i ddatblygu eu medrau. Mae'r lleoliad o orsaf dywydd ar do'r ysgol yn galluogi disgyblion gael mynediad yn syth at wybodaeth fanwl am y tywydd ar draws y Deyrnas Unedig. Mae gwybodaeth ragorol ar gael i rieni ar wefan yr ysgol. Mae system effeithiol iawn mewn lle ar gyfer arfarnu anghenion a dynodi adnoddau ar draws yr ysgol. Mae gwariant yr ysgol yn cyfateb i'r blaenoriaethau yn y CDY. Caiff gwariant ei flaenoriaethu yn unol â'r anghenion addysgu a dysgu sydd yn sicrhau bod yr adnoddau o fudd i ddisgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau.

115 Mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion o ran yr adeiladau a'r tir. Mae'r ysgol wedi addasu hen gaban symudol 'Mudiad Ysgolion Meithrin' i greu dosbarth gorlif ychwanegol i ddisgyblion B5 a B6 ac mae'r corff llywodraethol yn parhau i gydweithio gyda'r AALl i wireddu cynlluniau ar gyfer addasrwydd ac ansawdd yr adeilad i'r dyfodol. Mae natur yr adeilad a'r safle yn cyfyngu mynediad i agweddau o'r cwricwlwm. Mae natur yr adeilad hefyd yn effeithio ar y drefniadaeth feunyddiol yn ystod tywydd gwlyb. Er waetha'r diffygion hyn, gwna'r staff ddefnydd rhagorol o'r holl ofod sydd ar gael yn yr ysgol. Mae'r safle yn lân iawn a gaiff ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r dosbarthiadau a'r coridorau yn lliwgar ac yn groesawgar. Mae'r arddangosfeydd yn ddeniadol, ysgogol ac yn creu amgylchedd cyffrous sydd yn hyrwyddo'r addysgu a'r dysgu. Mae'r amgylchedd y tu fewn a thu allan yn y Cyfnod Sylfaen yn arbennig o ddeniadol

ac yn cael effaith gadarnhaol ar ymagweddu'r plant dan bump tuag at ddysgu. Mae'r ysgol yn cydnabod yr angen i ymestyn yr agwedd yma i ddiwallu anghenion y Cyfnod Sylfaen. Er waethaf y cyfyngiadau o ran maint i neuadd yr ysgol, sicrha'r staff y caiff disgyblion fynediad i'r ystod lawn o weithgareddau trwy wneud defnydd o gyfleusterau yn yr ysgol uwchradd a'r ganolfan hamdden leol. Gwneir defnydd rhagorol o'r amgylchedd lleol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau ar draws y cwricwlwm.

116 Mae'r rheolaeth ariannol yn eithriadol o drylwyr. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn ystyried cyllideb yr ysgol yn ofalus iawn ac yna'n cyllido ar gyfer blaenoriaethau. Bu'r corff llywodraethol yn rhagweithiol wrth sicrhau cefnogaeth ychwanegol i sicrhau lleihau maint y dosbarthiadau. Maent yn monitro a gwerthuso anghenion yr ysgol yn rheolaidd er mwyn sicrhau gwerth rhagorol am arian.

## Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

### Cyfnod Sylfaen

**Cyfnod Sylfaen: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

117 Mae plant yn y dosbarth meithrin a derbyn yn dilyn y Cyfnod Sylfaen.

118 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

**Addysg bersonol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

119 Gwna'r plant gynnydd rhagorol yn eu datblygiad personol a chymdeithasol. Arddangosant fedrau cymdeithasol da iawn wrth iddynt weithio mewn grwpiau bychan neu barau. Arddangosa'r plant garedigrwydd ac ystyriaeth ac maent yn gyfeillgar a chwrtais tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr.

120 Mae gan y plant ymagweddau cadarnhaol iawn tuag at ddysgu a mwynhânt eu gwaith a'u chwarae. Mae ganddynt lefelau uchel o gymhelliant a diddordeb ac maent yn cwblhau tasgau gyda brwdfrydedd ac yn cynnal eu canolbwyntio'n dda.

121 Mae safonau ymddygiad yn rhagorol. Defnyddir y rheolau 'Llond Llaw' yn effeithiol i egluro'r rheolau a'r disgwyliadau ac i atgyfnerthu ymddygiad priodol. Mae'r ymddygiad a'r ymagweddau yn adlewyrchu ethos yr ysgol a dengys y plant ystyriaeth, cwrteisi a pharch tuag at eraill.

122 Caiff y plant gyfle i ddewis gweithgareddau yn y ddarpariaeth barhaus. Gwnânt hynny'n hyderus a chymrant gyfrifoldeb am weithredoedd eu hunain. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig o amser gan ddangos dyfalwch, dyfalbarhad ac ymreolaeth.

**Nodweddion da**

123 Ymgartrefa'r plant yn gyflym i'r meithrin ac yn ymdopi'n hyderus gyda threfnau gan gynnwys amser byrbryd, amser tacluso, hunan gofrestru, ac mae'r rhan

fwyaf yn medru ymdopi gyda'r drefn tŷ bach. Dangosant lefel uchel o hunan gyfrifoldeb am eu hoed. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r perthnasau rhwng teimladau a gweithredoedd a dysgant gymryd eu tro a rhannu teganau.

124 Mae'r plant yn ymwybodol o ddiwylliant Cymru a'u cymuned leol ac maent yn datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill.

125 Mae'r plant a'u rhieni yn paratoi bocs trysor fel prosiect cartref ysgol a defnyddir y rhain yn effeithiol i gefnogi'r trosglwyddo yn nhermau lles. Cânt eu defnyddio mewn gweithgareddau a llwyddant i ymddiddori disgyblion yn eu dysgu.

**Diffygion**

126 Nid oes diffygion pwysig.

**Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

127 Gwna'r plant gynnydd rhagorol wrth ddatblygu eu medrau cyfathrebu. Gwrandawant yn astud ar oedolion a chymheiriaid, yn enwedig yn ystod trafodaethau dosbarth-cyfan a sesiynau stori. Mae eu gallu i wrando am gyfnodau estynedig ac i siarad gydag oedolion ac o flaen eraill wedi eu datblygu'n dda iawn.

128 Siarada'r mwyafrif yn eglur a medrant fynegi eu hanghenion a'u syniadau yn dda iawn. Maent yn caffael geirfa gynyddol a siaradant yn hyderus ac ymateb i gyfarwyddiadau. Yn y derbyn siaradant mewn brawddegau gan fynegi eu safbwyntiau yn effeithiol a defnyddio ystod dda iawn o eiriau disgrifiadol. Mae llawer yn gofyn cwestiynau treiddgar ac yn gwneud sylwadau synhwyrol ar weithgaredd.

129 Mwynhânt siarad am eu profiadau a medrant egluro'r hyn maent yn ei wneud. Yn ystod chwarae rôl, mae unigolion yn arbennig o frwdfrydig wrth iddynt greu deialogau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd megis yn y siop a llwyfan Eisteddfod y Bala.

130 Mae lleiafrif bychan iawn yn cychwyn yn y meithrin a chanddynt ychydig iawn neu ddim Cymraeg. Trwy raglen drochi effeithiol iawn gwnânt gynnydd rhagorol wrth gaffael yr iaith Gymraeg.

131 Mwynha'r plant y storïau a gwrandawant yn astud gan ddangos lefelau uchel o ganolbwyntio. Ymatebant yn dda iawn i storïau, gan adalw'r prif bwyntiau, ateb ystod o gwestiynau a rhoi eu barn yn hyderus.

132 Gwna'r plant gynnydd da iawn wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Maent yn ymglymu mewn amrywiaeth o weithgareddau gwneud marc mewn ystod o gyd-destunau y tu fewn a thu allan, gan ddefnyddio ystod o ddulliau ac arfau. Dangosant ddealltwriaeth dda o swyddogaethau ysgrifennu.

**Nodweddion da**

133 Cymer y plant ran yn hyderus mewn gweithgareddau dangos a dweud sydd yn ffurfio rhan gyson o'r drefn meithrin. Dengys y plant fwynhad a brwdfrydedd wrth berfformio repertoire o gerddi, rhigymau a chaneuon.

134 Mae'r datblygiad o fedrau darllen cynnar yn dda. Dechreua'r rhan fwyaf o blant meithrin adnabod eu henwau a thrin llyfrau gyda gofal, gan droi'r tudalennau'n briodol a thrafod darluniau gydag ymwybyddiaeth dda o fanylder; deallant fod print yn cyfleu ystyr. Yn y derbyn, dechreua'r plant adnabod a darllen testunau a geiriau syml.

135 Yn y dosbarth derbyn, gall y plant adnabod nifer o lythrennau'r wyddor ac yn gwybod eu seiniau a'u symbolau ac yn eu cynhyrchu gan ddefnyddio ystod o gyfryngau, gan gynnwys pelydriad, paent, toes a'r bwrdd gwyn rhyngweithiol.

### Diffygion

136 Nid oes diffygion pwysig.

### Datblygiad mathemategol

### Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

### Nodweddion rhagorol

137 Gwna'r plant gynnydd da iawn yn eu datblygiad mathemategol. Trwy ystod eang o weithgareddau dysgu, datblyga'r plant meithrin a derbyn ystod dda iawn o fedrau mathemategol y maent yn defnyddio mewn amrediad o gyd-destunau.

138 Ar draws y Cyfnod Sylfaen, mae gan blant gysyniad datblygol o rif ac yn dysgu rhifo a chymhwyso eu gwybodaeth i sefyllfaoedd bywyd go iawn megis coginio ac wrth chwarae rôl. Mae'r plant yn ymateb i ac yn ymuno mewn ystod o rigymau rhif, storïau a chaneuon, gweithgareddau a gemau cyfarwydd. Yn y derbyn, mae plant yn medru rhifo y tu hwnt i 20 ar leferydd. Mae'r rhan fwyaf yn medru ymgymryd ag adio syml.

139 Mae'r defnydd o iaith fathemategol wedi ei ddatblygu'n dda iawn. Dealla plant fod sero'n golygu dim a dangosant ddealltwriaeth dda o 'mwy na' a 'llai na' yn ogystal ag iaith leoliadol.

### Nodweddion da

140 Wrth chwarae rôl yn y siop, datblyga'r plant werthfawrogiad cynyddol o werth arian a'r defnydd a wneir ohono. Maent yn adnabod rhai darnau o arian a symbolau ysgrifenedig fel prisiau. Dechreuant adio gan ddefnyddio arian ar lefel syml.

141 Mae plant yn y meithrin a'r derbyn yn medru didoli a chydweddu amrywiaeth o wrthrychau yn unol â meini prawf syml yn fanwl gywir. Yn y derbyn, gall y rhan fwyaf o blant ddidoli gan ddefnyddio mwy nag un main prawf a threfnu a rhifo gwrthrychau cyfarwydd.

142 Mae plant yn medru adnabod ystod o siapau sylfaenol yn eu hamgylchedd ddysgu ac yn gwybod beth sydd yn gwahaniaethu un oddi wrth y llall. Mae rhai o'r plant mwy galluog yn medru enwi dau neu fwy o siapau tri-dimensiwn. Maent yn medru ailadrodd cyfres o batrymau.

### Diffygion

143 Nid oes diffygion pwysig.

### Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

### Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

### Nodweddion rhagorol

144 Mae'r holl blant yn y meithrin a'r derbyn yn profi ystod eang o brofiadau dysgu uniongyrchol yn ddyddiol, y tu allan a thu fewn, sydd yn ysgogi eu diddordeb a'u chwilfrydedd i archwilio'r byd o'u hamgylch. O ganlyniad, maent yn caffael gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o'u hamgylchedd ac yn datblygu medrau archwiliadol effeithiol iawn.

145 Datblyga'r plant meithrin a derbyn medrau meddwl a datrys problemau da iawn. Gofynnant gwestiynau priodol a dechreuant werthfawrogi rhyfeddodau'r byd.

146 Trwy wersi cyffrous, arloesol sydd â ffocws ac wedi eu cynllunio'n dda, datblyga'r plant eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u gwlad eu hunain ac ymwybyddiaeth o fywyd mewn gwledydd eraill. Yn y dosbarth derbyn, trwy chwarae rôl, mae'r plant yn profi siwrnai i Ffrainc. Mae defnydd effeithiol o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn eu caniatáu i weld golygfeydd a chlywed yr iaith a'r gerddoriaeth. Caiff eu dealltwriaeth ei gyfoethogi gan weithgareddau lle maent yn blasu bwyd Ffrengig, chwarae rôl yn Euro Disney ac adeiladu'r Tŵr Eiffel yn yr ardal adeiladu. Mynegant eu barn ar y daith, yr elfennau diogelwch, y bwyd, baner Ffrainc a'i hanthem genedlaethol a'r gerddoriaeth.

147 Datblyga'r plant fedrau ymholiad da trwy drin ystod o arteffactau ac adnoddau gweledol hanesyddol. Yn y derbyn, edrychant ar ystod o gamerâu a lluniau o wahanol gyfnodau i fyny at heddiw. Maent yn trin y gwrthrychau'n briodol, yn disgrifio'r hyn a welant ac yn cynnig esboniadau syml.

### Nodweddion da

148 Datblyga'r plant meithrin dealltwriaeth o gysyniad amser trwy drefnu'r diwrnod yn ôl y trefnau a disgrifio trefn y digwyddiadau.

149 Mae'r plant meithrin a derbyn yn datblygu ymwybyddiaeth o'r tywydd a newidiadau tymhorol ac yn datblygu gwybodaeth o fywyd anifeiliaid a phlanhigion. Maent yn gwybod enwau ffrwythau a llysiau cyffredin ac mae ganddynt ymwybyddiaeth gynyddol o'u synhwyrau.

150 Gall y plant adrodd digwyddiadau a hanesion o'r gorffennol a datblygu dealltwriaeth o dreigl amser.

### Diffygion

151 Nid oes diffygion pwysig.

### Datblygiad corfforol

### Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

### Nodweddion rhagorol

152 Yn y meithrin a'r derbyn, mae'r plant yn mwynhau bob math o weithgaredd corfforol ac yn ymroi iddynt yn frwdfrydig iawn. Mae eu medrau echddygol manwl a bras wedi eu datblygu'n dda iawn.

153 Symuda'r plant yn hyderus iawn o amgylch y dosbarth a'r amgylchedd awyr agored. Dengys y plant werthfawrogiad da iawn o ofod personol a chyffredinol, gan arddangos yn effeithiol medrau da iawn wrth redeg, neidio a phalu. Maent

yn ymwybodol o'r hyn gall eu cyrff wneud a dangosant gydbwysedd, rheolaeth, ystwythder a chydlyniad rhagorol. Mae'r plant yn gymwys wrth reoli eu beiciau a rhedeg o amgylch rhwystrau.

154 Mae'r plant yn trin amrediad o eitemau megis pinnau, pensiliau creonau, brwshys paent, offer gludo a theganau roboteg yn fedrus. Datblygant eu medrau llawdriniol a'u cydlyniad llaw a llygad yn effeithiol trwy dasgau sydd â ffocws a thrwy weithgareddau yn y ddarpariaeth barhaus sydd yn eu caniatáu i ymarfer a mireinio eu medrau.

**Nodweddion da**

155 Daw'r plant meithrin a derbyn yn gynyddol ymwybodol o'r angen am ymarfer a bwyd iachus er mwyn tyfu ac i fod yn iach. Maent hefyd yn ymwybodol o'r angen i symud yn ddiogel ac i ystyried eraill wrth ymwneud â gweithgareddau corfforol.

156 Yn y neuadd, dengys y plant derbyn ymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch a'r pwysigrwydd o ymgynhesu cyn ymarfer a chynhesu'r corff i lawr ar y diwedd. Gwrandawant ac ymateb yn barod i gyfarwyddiadau. Maent yn trafod eu gwaith mewn parau ac yn cynnig awgrymiadau ar gyfer gwelliant.

157 Dengys y plant fedrau da mewn gweithgareddau adeiladu lle maent yn gweithio gyda chywirdeb. Y tu allan, gweithiant ar y cyd fel rhan o grŵp i adeiladu adeileddau mawr gyda chewyll.

**Diffygion**

158 Nid oes diffygion pwysig.

**Datblygiad creadigol**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

159 Mae'r plant meithrin a derbyn yn arddangos rhai galluoedd rhagorol yn eu datblygiad creadigol. Mae safon ac amrediad y gwaith celf yn eithriadol. Mae plant yn archwilio patrwm, tôn, siâp, lliw a ffurf gan ddefnyddio ystod eang o ddeunyddiau. Gwnânt ddewisiadau ac arbrofi gyda lliw, paent glud, toes ac ystod o ddeunyddiau a gweadau. Defnyddia'r plant amrediad o offer yn hyderus mewn amrywiol dechnegau.

160 Defnyddiant raglenni cyfrifiadurol i wella eu medrau artistig. Mae eu hunan bortreadau yn arddangos eu medrau arsylwadol ardderchog.

161 Siarada'r plant yn frwdfrydig am eu gwaith, gan egluro'r ysgogiad a'r broses a mynegi barn am y canlyniad terfynol.

**Nodweddion da**

162 Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda mewn sefyllfaoedd chwarae rôl. Chwaraeant yn dda iawn gyda'i gilydd gan ymglymu mewn dialog pwrpasol ac ymgymryd â'r gwahanol rolau a chymeriadau gyda dychymyg.

163 Yn y meithrin a'r derbyn, mae'r plant yn mwynhau cerddoriaeth ac yn gwybod amrediad o ganeuon, rhigymau ac emynau y maent yn eu canu'n hyderus a brwdfrydig. Mae'r rhan fwyaf yn clapio ac yn medru cadw'r curiad ac mae pob

un yn ymuno yn y symudiadau. Derbyniant gyfleoedd i archwilio amrediad o ffynonellau sain ac archwilio gyda chynhyrchu seiniau o wahanol ansawdd.

**Diffygion**

164 Nid oes diffygion pwysig.

## Saesneg

**Ni chyflwynir Saesneg yn ffurfiol yng Nghyfnod Allweddol 1.**

**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

165 Mae mwyafrif o'r disgyblion ar draws cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da mewn sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu.

166 Maent yn gwrando'n dda ac yn mynegi eu hunain yn hyderus ar lafar ac yn defnyddio geirfa addas i gyfleu eu syniadau a'u profiadau yn glir. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, gall nifer drafod amrywiaeth o destunau yn estynedig.

167 Mae'r mwyafrif y disgyblion cyfnod allweddol 2, yn darllen yn annibynnol ar lefelau priodol i'w hoedran a'u gallu. Mae'r rhai llai galluog yn defnyddio nifer o strategaethau i'w cynorthwyo pan fydd angen er enghraifft, drwy adeiladu geiriau yn ffonetig neu ddefnyddio cyd-destun stori.

168 Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae llawer yn darllen yn rhugl. Maent yn cyfeirio'n hyderus at nodweddion llyfr a thrafod prif ddigwyddiadau a chymeriadau gyda hyder a dealltwriaeth. Mae disgyblion yn yr haen uchaf eu gallu yn darllen gyda mynegiant a thonyddiaeth gan seilio eu dehongliad ar nodweddion gramadegol fel atalnodau, atalnod llawn, cwestiynau ac ebychnodau. Maent yn gallu dangos ymwybyddiaeth eiddgar am gynnwys yr hyn maent yn ei ddarllen.

169 Mae mwyafrif y disgyblion yn gwybod y gwahaniaeth rhwng ffuglen a thestun ffeithiol ac yn rhoi rhesymau da dros ddewis eu llyfrau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn siarad yn hyderus am ystod o lenyddiaeth a'u hoff awduron. Defnyddiant ystod o ffynonellau yn llwyddiannus er mwyn adfer a choladu gwybodaeth gan gynnwys y rhyngrwyd yn eu hastudiaethau ar draws y cwricwlwm.

170 Ar ddechrau cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio geirfa a chystrawennau addas yn eu gwaith a llwyddant i gysylltu â dilyniannu brawddegau. Amlygant ddealltwriaeth gynyddol o frawddegau wrth ysgrifennu'n annibynnol i wahanol ddibenion.

171 Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, fe welir gwaith amrywiol o ran ei amrediad a'i bwrpas. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu yn hyderus gan ddefnyddio ystod o wahanol arddulliau ar gyfer dibenion a chynulleidfaoedd gwahanol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gonfensiynau gramadeg a strwythurau brawddegau. Ar y cyfan, mae sillafu'r mwyafrif yn gywir. Mae'r disgyblion mwy galluog yn dechrau defnyddio paragraffau'n dda.

**Diffygion**

172 Er nad oes diffygion pwysig mae llawysgrifen nifer o'r disgyblion yn anghyson o ran ansawdd.

## Dylunio a thechnoleg

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### Nodweddion da

173 Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gynyddol ymwybodol o'r broses gynllunio. Byddant yn cyfleu eu syniadau drwy luniadau, yn nodi'r deunyddiau sydd eu hangen ac yn rhestru'r camau a gymerwyd yn ystod y broses gwneud. Maent yn arddangos dealltwriaeth gynyddol o sut mae defnyddio offer a chyfarpar yn ddiogel. Mae eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd hylendid a diogelwch wrth iddynt ymwneud â thechnoleg bwyd yn dda. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn llwyddo'n dda i greu cysylltiadau rhwng y pwnc ac agweddau eraill o'r cwricwlwm.

174 Yng nghyfnod allweddol 1, mae disgyblion yn ymateb i'w tasgau mewn modd sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae eu gallu i dorri ac uno ystod o ddeunyddiau yn datblygu'n briodol. Maent yn ymwybodol o'r angen i ystyried meini prawf llwyddiant wrth ymateb i dasg. Maent yn arsylwi'n ofalus er enghraifft ar wneuthuriad wal frics cyn dechrau adeiladu tŷ bach eu hunain. Mae'r mwyafrif yn gallu egluro'r drefn o weithredu ac yn gwneud sylwadau synhwyrol ar sut y gallent wella eu gwaith.

175 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymwybodol o'r broses ddylunio ac yn medru trafod yr elfennau sylfaenol o ymchwil, cynllunio, dylunio a gwneud yn synhwyrol. Maent yn ymwybodol o'r angen i ystyried meini prawf llwyddiant wrth ymateb i dasg. Defnyddiant ystod o gynhyrchion a deunyddiau'n hyderus. Mae gallu'r rhan fwyaf i ddefnyddio offer a thechnegau syml i dorri, siapio, uno a chymysgu defnyddiau a chynhwysion yn datblygu'n briodol.

176 Maent yn ymwybodol o'r angen i ymchwilio'n fanwl er enghraifft ar oleudai cyn dechrau creu modelau eu hunain. Maent yn cofnodi eu syniadau drwy ddefnyddio lluniau a brasluniau i ddangos manylion eu dyluniadau. Maent yn gallu egluro'r drefn o weithredu ac yn gwneud sylwadau synhwyrol ar sut y gallent wella eu gwaith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ymwybodol sut y gall eu gwaith technoleg ategu eu gwaith mewn meysydd eraill er enghraifft wrth archwilio a gwneud cart i gario llechi.

177 Mae eu gallu i weithio'n gyda'i gilydd gan ddefnyddio eu medrau datrys problemau a TGCh wrth ymchwilio yn datblygu'n dda.

### Diffygion

178 Cyfyng yw ymwybyddiaeth disgyblion cyfnod allweddol 2 o sut y gellir defnyddio technoleg i reoli gwahanol fathau o symudiad.

## Daearyddiaeth

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

### Nodweddion da a rhagorol

179 Mae geirfa ddaearyddol rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws y ddau gyfnod allweddol. Maent yn defnyddio ystod o ffynonellau eilaidd er mwyn datblygu sgiliau daearyddol a chofnodir y gwaith mewn amrywiaeth o ddulliau

addas. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd rhagorol o'u sgiliau TGCh i gywain gwybodaeth a chyflwyno eu canfyddiadau.

180 Ar draws yr ysgol mae'r holl ddisgyblion yn adnabod a disgrifio nodweddion tywydd yn drefnus a gofalus. Maent yn hyderus iawn wrth ddisgrifio beth sy'n debyg ac yn wahanol o fis i fis ac o ardal i ardal. Maent yn disgrifio achosion a chanlyniadau newid mewn lleoedd a'r dylanwad a gaiff ar yr amgylchedd yn llwyddiannus iawn. Mae eu dehongliad o'r wybodaeth a'u doniau i ddisgrifio a chofnodi patrymau yn rhagorol.

181 Mae dealltwriaeth yr holl ddisgyblion o'r angen i warchod yr amgylchedd yn dda a deallant effaith erydu a llygredd. Dangosant ymwybyddiaeth eglur o bwysigrwydd ailgylchu.

182 Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o gynlluniau a mapiau syml gan gynnwys awyrluniau ac maent yn adnabod nodweddion eu hardal leol yn arbennig o dda. Maent yn dilyn taith o gwmpas y pentref ar linfap yn hyderus a llwyddiannus, a sylwi ar nodweddion ffisegol a dynol gan adnabod yn dda'r rhai hynny sydd yn rhoi cymeriad i'w pentref. Dangosant sgiliau da iawn wrth ddefnyddio cyfeiriadau grid syml i leoli nodweddion ar y map. Deallant fod angen allwedd a grid wrth ddefnyddio map.

183 Mae gan fwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 1 a 2, wybodaeth dda am enwau a lleoliad gwledydd Ewrop a gweddill y byd ac yn adnabod ac enwi'r cyfandiroedd ar gefnforoedd yn gywir.

184 Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn gwybod yn dda am nodweddion a phriodoleddau gwahanol ardaloedd lleol er enghraifft, rheolau cefn gwlad, ardal fynyddig, a dylanwad twristiaid. Mynegant farn ddoeth ar nodweddion deniadol ac anneniadol amgylchedd eu cymuned. Yn eu hastudiaethau o Kenya maent yn deall yn eglur y gwahaniaethau rhwng agweddau o fywyd y trigolion a'u bywydau eu hunain yng Nghymru.

185 Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gynyddol sicr a datblygiadol o leoliad, nodweddion a chymeriad lleoedd y maent yn eu hastudio. Maent yn defnyddio eu sgiliau ymholi daearyddol yn dda iawn wrth iddynt gymharu nodweddion dynol a ffisegol rhwng lleoedd. Er enghraifft, maent yn datblygu dealltwriaeth well a llawnach o'u cymdogaeth eu hunain ynghyd a, er enghraifft, Yr Eidal a Lesotho.

186 Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymestyn eu sgiliau mapio yn rhagorol. Maent yn dod yn gyfarwydd â dilyn cyfarwyddiadau, amcanu pellteroedd, defnyddio cyfesurynnau a deall graddfa. Maent yn dehongli symbolau ac allweddau yn dda. Mae llawer o'r disgyblion yn cynnig rhesymau da dros rai o'u harsylwadau a'u dyfarniadau o leoedd wrth iddynt astudio mapiau ordnans, awyrluniau, atlas a glôb.

**Diffygion**

187 Nid oes diffygion pwysig

## Cerddoriaeth

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### Nodweddion da

188 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae gan ran fwyaf y disgyblion ystod gytbwys o fedrau wrth gyfansoddi, perfformio a gwerthuso cerddoriaeth.

189 Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn canu ystod eang o ganeuon ac emynau yn frwdfrydig gydag ynganiad eglur, brawddegu da a thonyddiaeth gadarn.

190 Gall y rhan fwyaf gynnal curiad cyson i gyfeilio eu canu trwy glapio a defnyddio offerynnau taro di-draw. Maent yn ymwybodol o guriad a rhythm, yn copïo rhythmau syml yn gywir ac yn ymwybodol o werth nodyn. Maent yn chwarae patrymau syml ar offerynnau taro gan ddefnyddio ystod gyfyngedig o nodau.

191 Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau gwerthuso da. Maent yn trafod gwaith eu hunain ac yn cynnig awgrymiadau ar gyfer gwelliant. Maent yn gwrando'n ofalus ar gerddoriaeth cyfansoddwyr eraill ac yn ymateb yn briodol gan drafod rhai o'r elfennau cerddorol yn dda a mynegi eu teimladau.

192 Datblyga'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 eu medrau perfformio'n dda. Maent yn canu repertoire cynyddol gyda hyder a mwynhad a chyda rheolaeth gynyddol o'r elfennau cerddorol. Mae gwerthfawrogiad disgyblion cyfnod allweddol 2 o'r elfennau cerddorol yn dda.

193 Defnyddiant eu gwybodaeth yn effeithiol i werthuso cerddoriaeth gan drafod rhythm, tôn, gwead, deinameg, patrymau ailadrodd a thraw yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn cyfansoddi caneuon syml ac yn gallu cynnal rhan offerynnol gydag offerynnau di-draw. O dan gyfarwyddyd athro, maent yn medru cynnal sawl rhan, gan ddefnyddio gwahanol rythmau sy'n ailadrodd i gyfeilio i'w cyfansoddiadau. Mae'r rhan fwyaf yn gwerthuso eu perfformiadau yn erbyn meini prawf llwyddiant yn dda.

194 Caiff medrau'r disgyblion eu hymestyn trwy amrediad o gyfleoedd cyffrous i ddatblygu cyfansoddi ochr yn ochr â cherddorion a defnyddio rhaglenni TGCh a thechnoleg cerddoriaeth. Trwy bartneriaethau cadarn gyda'r gymuned leol, mae disgyblion mwy galluog yn gwella eu medrau cerddorol wrth berfformio gyda cherddorfeydd a bandiau lleol.

### Diffygion

195 Nid oes diffygion pwysig.

## Addysg gorfforol

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

### Nodweddion rhagorol

196 Ar draws yr ysgol mae'r holl ddisgyblion yn gweithio'n gorfforol galed trwy gydol eu gwersi. Maent bron yn ddieithriad yn datblygu sgiliau megis darganfod gofod, newid cyfeiriad a chyflymder ac yn cymhwyso sgiliau taflu, derbyn a tharo pêl yn

hynod o lwyddiannus. Maent yn llunio barn am eu perfformiad eu hunain ac eraill gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut i wella.

197 Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 ddefnydd rhagorol o'r gofod cyfyng yn y neuadd ac maent yn cydweithio yn effeithiol iawn mewn pâr ac mewn grŵp.

198 Cydweithia disgyblion iau cyfnod allweddol 2 mewn parau ac mewn grŵp yn hynod o effeithiol wrth ddatblygu sgiliau tenis. Gwelir datblygiad rhagorol yn sgiliau hoci disgyblion hŷn wrth iddynt amddiffyn ac ymosod mewn sefyllfa gêm.

199 Amlyga'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 eu sgiliau datrys problemau, cyfathrebu a gwaith tîm aeddfed wrth iddynt ymateb yn hyderus mewn gweithgareddau awyr agored cyson sy'n cynyddu eu hymwybyddiaeth o'r amgylchfyd naturiol o'u cwmpas. Mae eu gallu i gydweithio ag eraill a pharchu confensiynau chwarae teg ac ymddygiad priodol mewn gweithgareddau unigol a thîm yn rhagorol.

**Nodweddion da**

200 Ar draws yr ysgol mae'r dysgwyr yn gynyddol ymwybodol o effaith ymarfer ar y corff a bod ymarfer yn bwysig er lles iechyd a ffitrwydd. Gweithiant yn egniol gan ymateb yn dda i gyfarwyddiadau. Maent yn canolbwyntio'n dda wrth weithio. Dangosant ymwybyddiaeth dda o ofynion diogelwch ac maent yn deall bod angen cynhesu i fyny ac i lawr wrth ymarfer. Mae gallu dysgwyr ar draws y ddau gyfnod allweddol i wneud sylwadau adeiladol wrth werthuso perfformiad eu hunain yn datblygu'n dda.

201 Dengys y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 feistrolaeth o siapiau sylfaenol gymnasteg ac maent yn cynnal cydbwysedd yn hynod o effeithiol. Maent yn arddangos rheolaeth dda wrth greu siapiau amrywiol gyda thyndra yn y corff â symudiadau'n llifo'n rhwydd. Maent yn dechrau gwerthuso eu perfformiad eu hunain ac eraill gan ddefnyddio geirfa addas.

202 Mae holl ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth eang o weithgareddau corfforol sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd, eu ffitrwydd a'u hunan hyder. Caiff eu hymdrechion eu gwobrwyo mewn sawl cystadleuaeth yn lleol ac yn genedlaethol.

203 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau cyfnod allweddol 2 yn hyderus yn y dŵr ac erbyn diwedd y cyfnod gallant nofio'n ddigymorth hyd at 25 metr.

**Diffygion**

204 Nid oes diffygion pwysig.

## Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae'r staff a'r llywodraethwyr wedi ystyried canlyniadau'r arolygiad ac wedi darllen yr adroddiad rhagorol yn ofalus, ac wedi dod i'r casgliad eu bod yn adlewyrchu gwaith a bywyd yr ysgol yn deg.

Mae barn a sylwadau'r tîm arolygu'n cytuno gyda barn y staff a'r llywodraethwyr yn yr adroddiad hunan arfarnu.

Mae'r tîm arolygu hefyd wedi cynnwys barn rhieni a disgyblion a ddaeth yn sgil 75 o holiaduron, a chyfweliadau gyda'r disgyblion ar swyddogion y cyngor ysgol.

Mae'r adroddiad yn cyfleu rôl yr ysgol yn dda iawn fel rhan bwysig iawn o'r gymuned leol, a bod yr awyrgylch gartrefol yn un o brif gryfderau'r ysgol.

Mae ynddi hefyd ddisgrifiad clir o'r berthynas ardderchog sy'n bodoli yn yr ysgol rhwng disgyblion a staff, staff a rhieni ac ymrwymiad proffesiynol y llywodraethwyr i'w gwaith.

Bydd datblygiad a gwelliant pellach yn siŵr o ddilyn wrth i ni weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad.

Roedd yr arolygiad yn drylwyr ac yn eang ei gwmpas dros bedwar diwrnod, ac ymagwedd y tîm yn gwbl broffesiynol. Roeddent yn ofalus i lunio barnau cytbwys iawn a chytunedig, gan gymryd amser i ofyn am dystiolaeth bellach, a'i harfarnu, a chadarnhau barnau lle'r oedd angen. Yn ei rôl fel enwebai, teimlai'r pennaeth bod y broses yn un agored ac onest iawn.

<u>Cynllun Gweithredu</u>

Mae'r llywodraethwyr wedi ymateb i'r adroddiad yn barod drwy addasu'r CDY 2010, i ymgorffori holl argymhellion yr arolygwyr fel prif flaenoriaethau'r tri thymor nesaf.

Mae'r pennaeth/llywodraethwyr yn bwriadu adrodd yn ôl i'r rhieni ar y blaenoriaethau yn ystod tymor Haf 2010 a'i gynnwys fel pennawd arbennig o fewn yr adroddiad blynyddol 2010

Mae swyddog ansawdd yr AALl wedi derbyn copi o'r cynllun gweithredu.

Hoffwn ddiolch i'r tîm arolygu am arweiniad clir drwy'r arolygiad hwn, ac am

gynhaliaeth swyddogion a staff Cwmni Cynnal ac AALl Gwynedd.

Robin Williams: Pennaeth

Guto Edwards: Cadeirydd y Llywodraethwyr.

## Atodiad 1

### Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Gynradd Llanrug |
| Math o ysgol | Cyfnod Sylfaen a chynradd |
| Ystod oedran y disgyblion | 3 - 11 |
| Cyfeiriad yr ysgol | Llanrug<br>Caernarfon<br>Gwynedd |
| Cod post | LL55 4AL |
| Rhif ffôn | 01286 674905 |

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Mr Robin Williams |
| Dyddiad penodi | Ionawr 1991 |
| Cadeirydd y llywodraethwyr | Mr Guto Edwards |
| Arolygydd cofrestredig | Mr Goronwy Morris |
| Dyddiadau'r arolygiad | 19-22.10.09 |

## Atodiad 2

### Data a dangosyddion ysgol

| Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp blwyddyn | M (call) | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfanswm |
| Nifer y disgyblion | 18.5 | 29 | 27 | 35 | 31 | 29 | 34 | 36 | 239.5 |

| Cyfanswm nifer yr athrawon | | | |
|---|---|---|---|
| | Amser llawn | Rhan-amser | Cyfwerth ag amser llawn (call) |
| Nifer yr athrawon | 11 | 1 | 11.4 |

| Gwybodaeth staffio | |
|---|---|
| Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig) | 22:1 |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin | 9:1 |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig | Amherthnasol |
| Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig | 22 |
| Cymhareb athro (call): dosbarth | 1.1:1 |

| Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad | | | |
|---|---|---|---|
| Tymor | M | D | Gweddill yr ysgol |
| Hydref 2008 | 91.6 | 91.8 | 94.4 |
| Gwanwyn 2009 | 93.1 | 94.3 | 95.5 |
| Haf 2009 | 92.3 | 92.2 | 94.5 |

| | |
|---|---|
| Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim | 10% |
| Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad | 0 |

# Atodiad 3

**Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2009 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr AALl a Chymru**


**Ysgol Llanrug**
**Gwynedd**

**Rhif yr AALl/Ysgol:661/2006**


## Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2009 gyda meincnodi Cyfnod Allweddol 1

**Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 2+):**

| | Bechgyn | | | Merched | | | Disgyblion | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ysgol 2009 | AALl 2009 | Cymru 2009 | Ysgol 2009 | AALl 2009 | Cymru 2009 | Ysgol 2009 | AALl 2009 | Cymru 2009 |
| Saesneg | . | 85 | 78 | . | 75 | 88 | . | 81 | 83 |
| Cymraeg | 100 | 90 | 87 | 100 | 93 | 93 | 100 | 91 | 90 |
| Mathemateg | 89 | 87 | 85 | 100 | 89 | 89 | 94 | 88 | 87 |
| Gwyddoniaeth | 94 | 90 | 88 | 100 | 91 | 92 | 97 | 90 | 90 |
| DPC | 89 | 83 | 77 | 100 | 86 | 85 | 94 | 84 | 81 |




## Perfformiad yr ysgol dros amser (2005 - 2009)




## Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim

Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

| | |
|---|---|
| Chwartel 1 | Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf |
| Chwartel 2 | Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf |
| Chwartel 3 | Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf |
| Chwartel 4 | Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf |

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim

**Llai na 8% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim**

| | *Chwartel 4* | Ffin Chwartel Isaf | *Chwartel 3* | Ffin Canolrif | *Chwartel 2* | Ffin Chwartel Uchaf | *Chwartel 1* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Saesneg | | 86 | | 92 | | 100 | |
| Cymraeg | | 85 | | ***100*** | | 100 | |
| Mathemateg | | 88 | ***94*** | 96 | | 100 | |
| Gwyddoniaeth | | 92 | ***97*** | 100 | | 100 | |
| DPC | | 82 | | 90 | ***94*** | 100 | |

**Nodiadau:**

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 2 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf

3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

Crëwyd yr adroddiad gan DEWi ar 15/09/2009 — Tudalen 1 o 1


**Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2009 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr AALl a Chymru**

**Ysgol Llanrug** **Rhif yr AALl/Ysgol:661/2006**
**Gwynedd**


## Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2009 gyda meincnodi Cyfnod Allweddol 2

**Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 4+):**

| | Bechgyn | | | Merched | | | Disgyblion | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ysgol 2009 | AALl 2009 | Cymru 2009 | Ysgol 2009 | AALl 2009 | Cymru 2009 | Ysgol 2009 | AALl 2009 | Cymru 2009 |
| Saesneg | 100 | 79 | 76 | 100 | 91 | 87 | 100 | 85 | 81 |
| Cymraeg | 100 | 75 | 73 | 100 | 90 | 86 | 100 | 82 | 80 |
| Mathemateg | 100 | 82 | 80 | 100 | 87 | 85 | 100 | 84 | 82 |
| Gwyddoniaeth | 100 | 85 | 84 | 100 | 91 | 89 | 100 | 88 | 86 |
| DPC | 100 | 78 | 73 | 100 | 86 | 82 | 100 | 81 | 77 |




## Perfformiad yr ysgol dros amser (2005 - 2009)




## Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim
Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

Chwartel 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf
Chwartel 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
Chwartel 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
Chwartel 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim

**Llai na 8% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim**

| | *Chwartel 4* | Ffin Chwartel Isaf | *Chwartel 3* | Ffin Canolrif | *Chwartel 2* | Ffin Chwartel Uchaf | *Chwartel 1* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Saesneg | | 84 | | 90 | | ***100*** | |
| Cymraeg | | 75 | | 88 | | ***100*** | |
| Mathemateg | | 84 | | 92 | | ***100*** | |
| Gwyddoniaeth | | 89 | | 97 | | ***100*** | |
| DPC | | 80 | | 88 | | 96 | ***100*** |

**Nodiadau:**

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf

3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

Crëwyd yr adroddiad gan DEWi ar 15/09/2009 Tudalen 1 o 1

## Atodiad 4

### Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd pedwar arolygydd ddeuddeg diwrnod arolygydd yn yr ysgol. Yn ychwanegol bu asesydd cymheiriaid yn rhan o'r tîm arolygu.

Ymwelodd yr arolygwyr â:
- 33 o wersi neu wersi rhannol;
- pob dosbarth; ac
- addoli ar y cyd.

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfod fel tîm ar ddechrau'r arolygiad a gyda:
- staff, llywodraethwyr a rhieni; a
- gyda'r pennaeth a'r athrawon, y cyngor ysgol ynghyd â grwpiau o ddisgyblion yn ystod yr arolygiad.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:
- adroddiad hunan arfarnu'r ysgol;
- 75 o ymatebion i holiadur rhieni:
- dogfennaeth gynhwysfawr a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad; ac
- ystod eang o waith y disgyblion yn y gorffennol a'r presennol.

Bu'r pennaeth yn ei rôl fel enwebai yn rhan o bob cyfarfod tîm.

Ar ôl yr arolygiad, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r staff a'r llywodraethwyr.

## Atodiad 5

### Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

| Aelod tîm | Cyfrifoldebau |
|---|---|
| Mr Goronwy Morris<br>Arolygydd. Cofrestredig | Cyd-destun, Crynodeb ac Argymhellion<br>Cwestiynau Allweddol 1, 5 a 6<br>Dylunio a thechnoleg, addysg gorfforol |
| Mr Dylan Jones<br>Arolygydd Lleyg | Cyfraniadau at gwestiynau 1, 3, 4, 5 a 7 |
| Mr Merfyn Lloyd Jones<br>Arolygydd tîm | Cwestiynau Allweddol 3 a 4<br>Cyfraniadau at gwestiwn 1,<br>Saesneg, daearyddiaeth |
| Mrs Irene DeLloyd<br>Arolygydd tîm | Cwestiwn Allweddol 2 a 7<br>Cyfraniadau at gwestiwn 1,<br>Cyfnod Sylfaen, cerddoriaeth |
| Mrs Pat Rowlands<br>Asesydd Cymheiriaid | Cyfraniadau i'r holl gwestiynau |
| Mr Robin Williams<br>Pennaeth | Enwebai |

***Cydnabyddiaeth***

***Dymuna'r arolygwyr ddiolch i lywodraethwyr, pennaeth, staff, disgyblion a rhieni'r ysgol am eu cydweithrediad yn ystod yr arolygiad.***

**Contractwr:** EPPC-Severn Crossing Cyf
Swît F2A, Tŷ Britannic, Llandarsi, Castell-nedd SA10 6JQ